

# Swyddog Marchnata Sinema Cynhwysol

<b>Contract:</b>	<b>Tymor sefydlog (amc. 20 diwrnod Mawrth-Mai)</b>
<b>Ffi:</b>	<b>£3000 yn cynnwys TAW</b>
<b>Lleoliad:</b>	<b>Hyblyg (gweithio o bell)</b>
<b>Gofynion</b>	<b>Gweithiwr llawrydd angen cyfrifiadur ei hun</b>
<b>Ychwanegol:</b>	<b>(ni ddylid fod angen talu am feddalwedd)</b>
<b>Atebol i:</b>	<b>Swyddog Mynediad FAN, Canolfan Ffilm Cymru (Chapter Caerdydd)</b>

## Briff

Mae [Canolfan Ffilm Cymru](#) yn chwilio am swyddog marchnata llawrydd i gefnogi Swyddog Mynediad FAN gyda chodi ymwybyddiaeth o [Sinema Cynhwysol](#), prosiect Amrywiaeth a Chynhwysiant Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) BFI. Fe ddylai'r gweithiwr llawrydd feddu ar arbenigedd mewn cyfryngau digidol, a phrofiad o ddefnyddio Wordpress, Mailchimp a Twitter, ac yn hyderus wrth siarad gydag arddangoswyr sinema o bob ffurf a maint, y wasg a'r cyfryngau, boed ar y ffôn neu ar-lein. Byddwn yn disgwyl i'r gweithiwr llawrydd feddu ar ddealltwriaeth ac angerdd dros gynhwysiant ac yn ddelfrydol, fe fydd y contract yma yn cael ei chwblhau gan rhywun sydd â phrofiad byw o amrywiaeth.

## Darparu

- Cyhoeddi a hyrwyddo adnoddau Sinema Cynhwysol, yn cynnwys y cyhoeddiad diweddaraf '[Dismantling Structural Inequality in Your Cinema](#)' gan Sadia Pineda Hameed. Fe fydd y gweithiwr llawrydd yn cysylltu gyda'r wasg , yn ymgysylltu gyda phartneriaid cyfryngau a gyda'r 1500+ o aelodau FAN,

- Tynnu sylw at adnoddau sydd yn cysylltu gyda dyddiadau ymwybyddiaeth perthnasol, yn cynnwys Mis Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd, ac Wythnos Ymwybyddiaeth y Byddar,
- Ymchwilio cynnwys, ysgrifennu ac anfon newyddlen Sinema Cynhwysol i danysgrifwyr,
- Casglu a chyoeiddi 10+ o astudiaethau achos byr am brosiectau sinema wedi'u harawin gan amrywiaeth i lwyfan Sinema Cynhwysol mewn cydweithrediad gydag aelodau FAN,
- Cyfrannu at lwyfan Twitter Sinema Cynhwysol,
- Casglu data/gwybodaeth ddadansoddol marchnata i gyfrannu ar adrodd ar brosiectau .

### **Profiad**

- Deallwtiaeth ddofn o amrywiaeth a chynhwysiant, sut mae cynhwysiant yn gweithio yn ymarferol ac eiriolaeth profedig dros gynulleidfaoedd ymylol,
- Dealltwriaeth a phrofiad gwaith diweddar yn y sector arddangos ffilm DU,
- Gwybodaeth a phrofiad marchnata crwn ar draws cyfryngau digidol a phrint,
- Dull cyfathrebu hyderus

### **Cefnogaeth**

- Fe fyddwn yn cyllido o leiaf un cyfle hyfforddi i'r gweithiwr llawrydd,
- Fe fydd y gweithiwr llawrydd yn cysylltu gyda phob [canolfan ffilm rhanbarthol](#) a'r aelodaeth ehangach i gefnogi datblygiad eu rhwydwaith,
- Rydym wedi ymrwymo i gefnogi anghenion mynediad ac fe fyddwn yn cydweithredu gyda'r gweithiwr llawrydd i gefnogi

arferion gwaith gorau iddyn nhw (o amgylch niwroamrywiaeth, anabledd, cyfrifoldebau gofal, gofynion iechyd meddwl etc)

### **Diddordeb?**

- E-bostiwch [toki@filmhubwales.org](mailto:toki@filmhubwales.org) i ddatgan diddordeb a chyflwyno eich portffolio/CV (ysgrifenedig, fideo, fformatau sain yn dderbyniol) gyda geirda erbyn, **erbyn 6pm Llu, 15 Mawrth 2021,**
- Unrhyw gwestiynau neu sgwrs am y contract, cysylltwch gyda Toki Allison (Swyddog Mynediad FAN) drwy e-bost neu ffôn 07866 451949,
- Ni fydd angen cyfweiliadau ffurfiol er y gallwn eich ffonio am sgwrs
- Fe fyddwn yn dewis yr wythnos honno ac yn edrych ar gychwyn yn weddol sydyn.

Diolch am eich diddordeb.

[inclusivecinema.org](http://inclusivecinema.org) | [@InclusiveCinema](https://www.instagram.com/InclusiveCinema)